cbac
wjec

# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2024**

**TAG**
**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 6**
**1000N60-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**TAG CYMRAEG IAITH GYNTAF – UNED 6**

**HAF 2024 CYNLLUNIAU MARCIO**

## 1. Gwerthfawrogi Barddoniaeth – 40 marc

- Cyfeiriad at 'Taid' yn y teitl yn awgrymu cerdd ag iddi naws bersonol a thelynegol.
- Rhan 1 - Oriawr – cyflwyno thema amser.
- Llinell agoriadol uniongyrchol yn disgrifio'r oriawr gyda'r **ansoddair** 'trwm' ac yna'r **ansoddair** 'mawr' – dim defnydd ymarferol i'r oriawr. Ansoddeiriau sy'n rhoi disgrifiad ffeithiol a gwrthrychol o'r oriawr.
- Defnydd o'r person **cyntaf** 'fy' – cerdd bersonol.
- **Brawddeg fer** i agor yr ail bennill – datganiad syml sy'n nodi'r cysylltiad rhwng y bardd a'r oriawr.
- Gweddill llinellau ail bennill yn **goferu** ac yn un frawddeg yn esbonio sut y daeth yr oriawr i feddiant ei thaid. Y **goferu** yn rhoi naws lafar, storïol a naturiol i'r dweud.
- 'Gaeaf saith-deg naw' – yr oriawr yn hen – adlewyrchu'r syniad o **amser** a gyflwynir yn y teitl.
- Rhodd/anffawd/fferm/mynd i'r adwy – **portreadu** ei thaid fel cymwynaswr – adlewyrchiad o gymuned amaethyddol gyda'i haelodau'n cynorthwyo'i gilydd.
- 'mynd i'r adwy' – **idiom** priodol ar gyfer byd amaeth.
- Pennill tri yn agor eto gyda'r **person cyntaf .**
- Yr oriawr yn dod ag atgofion o'i thaid er nad yw'n gwybod hanes yr oriawr yn iawn – defnyddia ddarluniau eraill o'i hatgofion i ddychmygu'r hyn a ddigwyddodd – dangos adnabyddiaeth dda o'i thaid.
- Yr **ansoddair** 'sepia' yn cysylltu â hen luniau – hen atgofion – **trosi** ei hatgofion yn lluniau sepia.
- Yr oriawr yn deffro'i **synhwyrau** – y gweld a'r clywed llais.
- **Portreadu** ei thaid gyda chyfres o **ddarluniau** – ei gap a'i wên, cochni ei fochau a glesni ei lygaid; 'Heb wastraffu gwên', 'craffu', 'tawel' 'heb ffws' – dyn diffwdan; darlunio'r pethau bychain a ddaw o berthynas glos ac annwyl.
- Disgrifiad o'i lais eto'n awgrymu atgofion byw a gwerthfawrogiad ohono; y disgrifiad 'llefrith-cynnes-syth-o-deth' eto'n **ddelwedd amaethyddol** briodol i ddisgrifio amaethwr – awgrym o lais cysurus a chynnes er gwaetha'r 'galw'n awdurdodol'; yr **ansoddair** awdurdodol yng nghyd-destun y ci – dyn addfwyn a phwyllog sy'n defnyddio'i awdurdod yn ôl yr angen.
- Rhan 2 – Y disgrifiad o'r oriawr fymryn yn llai gwrthrychol erbyn hyn. Er mai disgrifiad o ymddangosiad yr oriawr sydd yma fel yn y pennill cyntaf, mae mwy o arwyddocâd symbolaidd i'r disgrifiad. 'Crachen' a'r **trosiad** o 'waed yn y gwythiennau wedi peidio'
  yn **symbol** o ddirywiad ac yn awgrym o farwolaeth (awgrymu bod ei thaid wedi marw).
  Pennill 2 – Y gair 'ond' yn **drobwynt** ac yn agor drws ar fyd o atgofion a ddaw gyda'r oriawr er gwaetha'r ffaith nad yw'n gweithio bellach.
- **Cyffelybiaeth** 'fel cragen fôr' – delwedd o fyd plentyn yn codi cragen at ei chlust i wrando; yr oriawr yn dwyn atgofion iddi fel synau mewn cragen fôr, sydd yn synau annelwig ac anodd eu clywed yn iawn (yr **ansoddair** 'pell') ond sy'n creu rhyfeddod; ei hatgofion hithau yn 'bell' ac yn haniaethol ond yn destun rhyfeddod, hapusrwydd a chysur.
- **Y synhwyrau**'n bwysig yn rhan 2 hefyd – clywed 'sisial pell'.
- **Ailadrodd** yr ansoddeiriau 'hen' a 'pell' yn rhoi blas o fyd arall sydd y tu hwnt i gyrraedd.

© WJEC CBAC Cyf.

- Thema **amser** ac **atgofion** – y cogiau ddim yn troi mwyach a'i thaid yntau yn atgof hiraethus iddi.
- **Gobaith** – er nad yw'r oriawr yn gweithio, daw ag atgofion melys iddi felly nid yw'r sefyllfa'n hollol anobeithiol; er bod yma naws hiraethus, mae'r oriawr yn cynnig cysur.
- Pennill 3 ag iddi naws ysgafn a gobeithiol – **synnwyr** y clyw eto'n dod â chysur wrth i'r bardd glywed lleisiau cyfarwydd yn codi'n 'llanw Medi' sy'n cael ei ddefnyddio'n drosiad o sŵn byrlymus gan mai llanw uchel yw llanw Medi; **delweddau'r môr** yn cael eu defnyddio i greu darluniau o'i hatgofion.
- **Rhestru** cyfres o ddelweddau annwyl fel ag y gwnaeth wrth bortreadu ei thaid yn rhan1 – atgofion yn ymwneud â'r **synhwyrau** – lleisiau, jeli, clecs, canu emynau, gynnau, brefu ŵyn a grwndi tractor. Creu darlun o groeso a gwaith y ffermdy a'i phobl. Darluniau annwyl a chynnes yn awgrymu atgofion hapus. Y **rhestru** yn codi tempo'r gerdd ac yn adlewyrchu bwrlwm y fferm ei hun. Gellir dychmygu'r bardd yn gwenu wrth gofio. Rhai cymalau araf a nifer o gymalau byrion, sydyn yn adlewyrchu atgofion yn dod i'r meddwl draphlith draphlith.
- Dau **gwestiwn rhethregol** yn cwestiynu gwerth yr oriawr ym mhennill 4. I rywun mwy gwrthrychol, nid oes gwerth i'r oriawr.
- **Trosiad** 'triog amser' yn effeithiol i ddangos bod yr oriawr wedi dod i stop ac yn perthyn i'r cyfnod y daeth ei phwrpas a'i defnydd i ben. Triog yn rhywbeth sy'n caethiwo – mae'r oriawr ei hun a phopeth mae'n ei gynrychioli yn sownd mewn cyfnod penodol o amser.
- **Cyffelybiaeth** 'fel pryfed mewn darnau ambr' – cerrig ambr, ffosiliau yn cynnwys pryfed yn gaeth ynddynt – caeth mewn amser. Darlun **anobeithiol** yn cwestiynu gwerth yr oriawr.
- Yn y pennill olaf, mae'r bardd yn ateb ei chwestiwn ei hun a chadwa'r oriawr yn saff mewn drôr o bethau 'coll' – pethau eraill a'u pwrpas bellach yn ansicr a cheir **rhestr** o rai ohonynt. Ceir awgrym anobeithiol nad oes defnydd i'r oriawr ond na all y bardd ei thaflu chwaith.
- Y gair ysfa yn un cryf i awgrymu bod y dynfa at yr oriawr yn un gref mewn gwirionedd ac y bydd yn galw arni ambell dro.
- Cyfres o **ferfenwau** cadw/estyn/codi - prosesau sy'n gamau syml i agor y drws ar y gorffennol a'i atgofion gwerthfawr. Dyma ateb y cwestiynau yn y pennill blaenorol.
- **Ailadroddir** y **gymhariaeth** o'r ail bennill gydag **ataliaith** y tro hwn gan fod y darllenydd yn gwybod beth fydd yn digwydd wrth i'r bardd godi'r oriawr i'w chlust – mae hyn yn gwneud y gynulleidfa'n rhan o'i stori.

Gellir cydio mewn nifer o themâu megis:
Amser
Cydweithio/brawdgarwch
Atgofion
Teulu
Perthynas
Colled
Galar
Hiraeth
Gobaith
Gorffennol
Gwerth

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 | AA2 - ystod y marciau (20) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|
| • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dreiddgar<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus<br>• croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | **16–20**<br>***(Synoptig 5)*** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | **16-20** |
| • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol<br>• croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | **13–15**<br>***(Synoptig 4)*** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | **13-15** |
| • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson<br>• croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull | **10–12**<br>***(Synoptig 3)*** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **10-12** |

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 | AA2 - ystod y marciau (20) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|
| • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull | **7–9**<br><br>***(Synoptig 2)*** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o ran adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **7-9** |
| • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol<br>• datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad<br>• trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau | **4–6**<br><br>***(Synoptig 1)*** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **4-6** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **0–3** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **0-3** |

***Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un band marcio (yn uwch neu'n is) i'r marc cynnwys.**

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**2. Y Gymraeg mewn Cyd-destun** **[40]**

| AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|
| • ysgrifennu'n gryno gan ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol yn feistrolgar<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• defnyddio'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas / cynulleidfa<br>• defnydd hyderus o hanfodion y ffurf<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | **32-40** |
| • ymdrech dda i ysgrifennu'n gryno gan ddangos gafael sicr ar ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• defnyddio'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas / cynulleidfa<br>• defnydd priodol o hanfodion y ffurf<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | **26-31** |
| • ymdrechu i ysgrifennu'n gryno gan lwyddo i ddewis a dethol syniadau perthnasol yn eithaf da<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaith<br>• defnyddio cywair yn briodol ac addas ar y cyfan i'r pwrpas / cynulleidfa<br>• defnydd priodol ar y cyfan o hanfodion y ffurf<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **20-25** |
| • llwyddo i ddewis a dethol syniadau perthnasol ar y cyfan<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus<br>• rhoi peth sylw i gywair priodol ac addas i bwrpas / cynulleidfa<br>• rhoi peth sylw i hanfodion y ffurf<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **14-19** |
| • ymdrechu i ddewis a dethol syniadau perthnasol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno'r gwaith<br>• dangos ymwybyddiaeth o gywair addas i bwrpas / cynulleidfa<br>• dangos ymwybyddiaeth o hanfodion y ffurf<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **8-13** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **0-7** |



© WJEC CBAC Cyf.